## COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 23 TACHWEDD 2023 DYDD IAU, 23 TACHWEDD 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors C. Smith (Aelod Llywyddol)
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
M. Cross
H. Cunningham
D. Davies
G. A. Davies
S. Edmunds
J. Gardner
W. Hodgins
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
L. Winnett
D. Woods

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Addysg
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Rheolwr Gwasanaeth – Cyfrifeg
Rheolwr Gwasanaeth – Polisi a Phartneriaethau
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata
Rheolwr Gwasanaeth – Cofrestru, Etholiadau a Chwynion Corfforaethol
Swyddog Polisi
Phil Diamond – Pennaeth Tîm Partneriaeth Rhanbarthol, CBS Torfaen
Natasha Harris – Rheolwr Gwasanaeth, Partneriaethau, CBS Torfaen

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Chaplin, M. Day, J. Hill, J. Holt, J. Morgan, Y.H., J. Wilkins, a'r Prif Swyddog Adnoddau. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiad buddiant dilynol: | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Eitem Rhif 22: Cynnig y Cyngor – Lles Anifeiliaid**<br><br>- Cynghorydd W. Hodgins<br><br>Ar ôl derbyn cyngor y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol/Swyddog Monitro, arhosodd yr Aelod yn y cyfarfod tra cafodd yr eitem o fusnes ei hystyried ond ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth. | |
| **No. 4** | **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**<br><br>**<u>Cydymdeimlad</u>**<br><br>-<br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda'r:<br><br>- Cynghorydd Lisa Winnett ar farwolaeth drist ei thad.<br>- Cynghorydd Malcolm Cross ar farwolaeth drist ei chwaer.<br><br>Dangosodd aelodau a swyddogion eu parch gyda un munud o dawelwch.<br><br>Anfonwyd llythyrau cydymdeimlad at y teuluoedd.<br><br>**<u>Cynghorydd Carl Bainton – Ymddiswyddiad</u>**<br><br>-<br>Gwnaeth Arweinydd y Cyngor y datganiad dilynol:<br><br>Gyda gofid yr oedd yn rhaid iddo gyhoeddi ymddiswyddiad Carl Bainton a wasanaethodd Ward De Glyn Ebwy ers cael ei ethol ym Mai 2022. Datblygodd y sefyllfa oherwydd y gofynnwyd I'r Cyngor, ar gais Llywodraeth Cymru, i drosglwyddo staff Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) a gyflogir ar y Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy I'r Cyngor er mwyn bod yr un fath â'r model a fabwysiadwyd gan y 21 awdurdod lleol arall ar draws Cymru. Fel canlyniad mae Carl wedi trosglwyddo i'r Cyngor dan reoliadau TUPE ac roedd yn rhaid iddo felly ymddiswyddo fel Aelod o'r Cyngor. Roedd hon yn sefyllfa unigryw, fodd bynnag roedd darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 yn weithredol ac ysywaeth ni fedrai Carl aros fel Cynghorydd a hefyd fel cyflogai. Roedd Carl wedi gofyn am gyngor ac eglurder ar hyd proses trosglwyddo TUPE ac er ei bod yn sefyllfa | |

| | | |
|---|---|---|
| | ddigynsail, cafwyd cadarnhad fod y Ddeddf yn weithredol yn ystod y sefyllfa yma.<br><br>Yn ystod ei gyfnod fel cynghorydd roedd Carl wedi dangos ymroddiad di-ildio i wella cymuned a dinasyddion Blaenau Gwent drwy weithio’n ddiflino i drin anghenion a phryderon preswylwyr. Cafodd ei waith mewn meysydd tebyg i’w rôl fel Pencampwr Costau Byw effaith barhaus, yn gymaint felly fel bod yr Arweinydd yn ddiweddar wedi trafod ei wneud yn Gadeirydd y Gweithgor Trawsbleidiol ar Gostau Byw, cymaint ei ymroddiad a’i ymrwymiad i’r gwaith.<br><br>Daeth yr Arweinydd i ben drwy ddweud ein bod i gyd yn ddiolchgar am wasanaeth ac ymroddiad rhagorol Carl ac yn dymuno’n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Yn anochel, byddai’r ymddiswyddiad hwn yn sbardun i is-etholiad yn Ward Glynebwy yn y Flwyddyn Newydd.<br><br>Yna darllenodd yr Arweinydd lythyr a gafwyd gan Carl:<br><br>“Annwyl Gyd Aelodau Etholedig<br><br>Bydd llawer ohonoch yn gwybod pan ddechreuais fy nghyfnod fel Cynghorydd ym Mlaenau Gwent fy mod yn cael fy nghyflogi gan GAVO yn y Tîm Cymunedau am Waith a Mwy. Ar gais Llywodraeth Cymru, fe wnaeth GAVO yn ddiweddar drosglwyddo’r tîm yn fy nghynnwys i i’r Cyngor dan reoliadau TUPE. Credais i ddechrau bod yn yr amgylchiadau unigryw hwn y gallwn wneud rôl ddeuol. Yn anffodus, ers hynny eglurwyd nad yw’r ddeddfwriaeth yn caniatáu i mi barhau yn y ddwy swydd. Felly nid oes gennyf unrhyw ddewis heblaw datgymhwyso fy hun o fod yn Gynghorydd yn weithredol ar unwaith.<br><br>Ar y pwynt hwn, hoffwn ddiolch i bob Cynghorydd am eu cyfeillgarwch a chefnogaeth a ddangos yn ystod fy nghyfnod yn fy swydd ac i staff diwyd y Cyngor y mae eu hymdrechion weithiau yn mynd heb ei nodi a diolch diffuant enfawr i fy holl etholwyr yn Ne Glyn Ebwy a wnaeth fy nghefnogi hyd yr eithaf mewn cyfnodau da a chyfnodau heriol yn ystod y 18 mis diwethaf.<br><br>Hefyd, byddai’n esgeulus i mi beidio sôn a chydnabod cyfraniad enfawr yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd a’r Grŵp Llafur am fy | |

| | | |
|---|---|---|
| | nghefnogi, fy addysgu a fy nghefnogi fel Cynghorydd tro cyntaf, gan fy helpu yn gyntaf drwy fiwrocratiaeth gymhleth ac yn ddiweddarach yn rhoi ffydd i mi i ddod y Pencampwr Costau Byw cyntaf i'r Cyngor.<br><br>Bu fy nghyfnod fel Cynghorydd yn werth chweil iawn a bu'n anrhydedd gwasanaethu'r gymuned ac mae'n dristwch mawr i mi gael fy hun yn sefyllfa hon ond byddaf yn gorffen drwy ddweud 'Hasta la vista' a wela'i chi yn yr etholiad nesaf pan y gall fy amgylchiadau fod yn wahanol Dymuniadau gorau a phob lwc i chi gyd. Carl."<br><br>Ategodd Aelodau fod y rhain yn amgylchiadau digynsail ac y bu'n bleser gweithio gyda Carl a byddid yn gweld ei golli. Mynegodd pob Aelod eu dymuniadau gorau i Carl ar gyfer y dyfodol ac iddo yn ei swydd gyfredol fel swyddog Blaenau Gwent. | |
| **No. 5** | **<u>LLYFR PENDERFYNIAD – MAWRTH-TACHWEDD 2023</u>**<br><br>Cafodd y Llyfr Penderfyniadau ar gyfer y cyfnod Mawrth-Tachwedd 2023 ei gyflwyno i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penderfyniadau a chadarnhau fel cofnod gywir o'r trafodion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **<u>PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 9** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **<u>PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **<u>CABINET</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU LLE</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL A PHERFFORMIAD</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU POBL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **<u>PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 18** | **PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 19** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 20** | **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU ARBENNIG**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 21** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan Aelodau. | |
| **No. 22** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 23** | **CYNNIG – LLES ANIFEILIAID**<br><br>Datganodd Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ac arhosodd yn y cyfarfod tra roedd yn cael ei ystyried ond ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cynnig a gyflwynwyd yn ymwneud â Lles Anifeiliaid.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r Cynnig a chytunodd y Cyngor i:<br><br>(i) Gwahardd yn llwyr roi anifeiliaid byw fel gwobrau, mewn unrhyw ddull, ar dir Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.<br><br>(ii) Ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gan annog | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwaharddiad llwyr ar roi anifeiliaid byw fel gwobrau ar dir cyhoeddus a thir preifat yng Nghymru. | |
| **No. 24** | **<u>PLEIDLAIS DROSGLWYDDADWY SENGL</u>**<br><br>Ymunodd y Cynghorydd Jules Gardner â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>Yn dilyn trafodaeth faith, cynigiodd Aelod gymeradwyo Opsiwn 1 h.y. sef cadw pleidleisio Cyntaf Heibio'r Postyn ar gyfer etholiadau lleol. Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>Cynigiwyd Opsiwn 2 gan Aelod arall, sef cynnal ymgynghoriad cyn dod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor i'w ystyried newid y system bleidleisio a fyddai angen mwyafrif o ddau-draean o'r Cyngor cyn newid y system bleidleisio. Eiliwyd y cynnig hwn.<br><br>Wedyn gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi ar gyfer y record gyhoeddus.<br><br>**O blaid Opsiwn 1 –** Cynghorwyr D. Bevan, M. Cross, D. Davies, W. Hodgins, G. Humphreys, J. C. Morgan, J. P. Morgan, L. Parsons, D. Rowberry, C. Smith, T. Smith, G. Thomas, S. Thomas, H. Trollope, D. Wilkshire, L. Winnett, D. Woods.<br><br>**O blaid Opsiwn 2–** Cynghorwyr P. Baldwin, S. Behr, H. Cunningham, G. A. Davies, S. Edmunds, J. Gardner, R. Leadbeater, E. Jones, J. Thomas.<br><br>Felly cafodd y bleidlais ar Opsiwn 1 ei **<u>gario.</u>**<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cadw system bleidleisio bresennol Cyntaf Heibio'r Postyn ar gyfer etholiadau lleol. | |
| **No. 25** | **<u>DIWYGIAD ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol/Swyddog Monitro. | |

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r gwelliant a nodir isod a'i gynnwys yn y Cyfansoddiad presennol:<br><br>11.10.3 Penodi Prif Weithredwr<br><br>"Bydd y Cyngor Llawn yn cyfweld ac yn penodi'r Prif Weithredwr. Bydd y Pwyllgor neu Is-bwyllgor o'r Cyngor yn llunio rhestr fer ac mae'n rhaid i'r Pwyllgor neu Is-bwyllgor gynnwys o leiaf un Aelod o'r Cabinet. Bydd wedyn broses addas i asesu ymgeiswyr i benderfynu ar yr ymgeiswyr i gael eu cyfweld gan y Cyngor Llawn." | |
| **No. 26** | **YMRWYMO I'R CYFAMOD LLUOEDD ARFOG**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau i gael ei ystyried.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a bod y Cyngor yn ymrwymo i'r Cyfamod Lluoedd Arfog a fyddai'n cael ei lofnodi gan y Cynghorydd Derrick Bevan, Pencampwr Lluoedd Arfog. | |
| **No. 27** | **CYNLLUN ARDAL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GWENT AC ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL 2022/2023**<br><br>Ystyriodd aelodau adroddiad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r cyd-ymrwymiadau rhanbarthol a amlinellir yn y Cynllun Ardal ac Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynnydd ar yr amcanion. | |
| **No. 28** | **ADRODDIAD AELODAETH**<br><br>**Panel Ymgynghori Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol**<br><br>-<br>Gwnaeth y Panel ar 15 Tachwedd 2023 yr argymhellion dilynol i benodi mewn egwyddor: | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Ysgol Gynradd Beaufort Hill –** Belinda Tolman<br>**Ysgol Gynradd Georgetown –** Jacqueline Thomas<br>**Ysgol Gynradd Bryn Bach –** Nyree Davies-Jones<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penodiadau uchod.<br><br>**<u>PENODI AELOD LLEYG PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>PENDERFYNWYD penodi Mrs Cheryl Hucker yn Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.<br><br>**<u>PENODI CYNGHORYDD TREF I'R PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU</u>**<br><br>Rhoddwyd adroddiad llafar am yr apwyntiad dilynol:<br><br>PENDERFYNWYD nodi penodi'r Cynghorydd Joshua Rawcliffe o Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd i'r lle gwag ar gyfer Cynghorydd Tref ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau. | |